

**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu (Anstatudol)
a gynhaliwyd o bell trwy fideo-gynhadledd ddydd Iau, 26 Tachwedd 2020**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Clive Davies (Cadeirydd) y Cynghorwyr Euros Davies, Marc Davies, Endaf Edwards, Lloyd Edwards, Hag Harris, Alun Lloyd-Jones, Dan Potter, Ivor Williams a Matthew Woolfall Jones

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Aelod Cabinet)

Swyddogion yn Bresennol: Ms Anne Louise – Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, Mr Gareth Rees, Uwch-swyddog Trwyddedu, Mrs Carwen Evans, Rheolwr- Gwasanaethau Masnachol, Mrs Victoria Evans, Cyfreithwraig, Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd a Safonau

(11:20am –11:50am)

- 1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Elizabeth Evans ynghyd â Mr Alun Williams am na allent fynychu'r cyfarfod.
- 2 **Datgelu Buddiant Personol / Buddiant sy'n Rhagfarnu**
Datgelodd y Cynghorydd Euros Davies fuddiant personol ym Mholisi Deddf Trwyddedu Ceredigion 2021-2026.
- 3 **Cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**
PENDERFYNWYD cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2019 yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Gareth Davies yn bresennol yn y cyfarfod.
- 4 **Materion sy'n Codi**
Dim.
- 5 **Materion Deddf Trwyddedu 2003:**
Diweddariad Cyffredinol
 - Trwydded Bridio Cŵn Llys Ynadon - Gwrandawriad Apêl Gwrthodiad – Tachwedd 2019
 - Trwydded Bridio Cŵn Llys Ynadon – Gwrandawriad Apêl Gwrthodiad
 - Cwrs Trwyddedu Lles Anifeiliaid (Cymru)
 - Trwyddedu Sefydliadau Bridio Cŵn
 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Gwrandawriadau Tacsï- Gwrandawriadau Gyrwyr – Manylion yr Achosion
 - Gwrandawriad Llys Borth Wild Animal Kingdom

Yn dilyn cwestiwn o'r llawr, CYTUNWYD

- (i) i nodi'r adroddiad
- (ii) i ddiolch i'r holl Swyddogion am eu gwaith yn cadw'r safonau yn y sefydliadau bridio cŵn; ac
- (iii) y dylid cadarnhau nifer y gwrandawiadau mewn perthynas â materion tacsî a digwyddiadau gyda thacsis gyda'r heddlu; gan ei bod yn ymddangos bod y nifer wedi cynyddu ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor

Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar y

Cadeirydd:-_____

Dyddiad:_____